

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r strategaeth rheoli tybaco a'r cynlluniau cyflawni yn cynnwys ffocws ar leihau anghydraddoldebau'n gysylltiedig â thybaco. Er gwaetha'r cynnydd wrth leihau ysmegu, rydym yn gwybod bod cyfraddau ysmegu a'r defnydd o gynhyrchion tybaco eraill yng Nghymru yn amrywio rhwng grwpiau gwahanol o bobl. Ceir tystiolaeth bod cyfraddau ysmegu yn uwch ymhlith rhai grwpiau, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn ardaloedd amddifad yn economaidd-gymdeithasol, pobl mewn galwedigaethau gwaith ailadroddus a gwaith llaw, pobl sy'n ddi-waith, pobl â chyflyrau iechyd meddwl, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl o'r gymuned LHDTC+.

Mae'r gwahaniaethau hyn mewn cyfraddau ysmegu yn achosi mwy o faich afiechydon yn gysylltiedig ag ysmegu yn y grwpiau hyn, ac yn ei dro, mae'n cyfrannu at anghydraddoldebau ac anghydraddoldebau iechyd. Rydym wedi gweld y modd y mae pandemig fel COVID-19 wedi amlygu'r anghydraddoldebau hyn, gan effeithio ar ysmygwyr a'r cymunedau lle mae cyffredinrwydd ysmegu yn uwch mewn ffordd anghymesur. Mae'r strategaeth rheoli tybaco yn canolbwyntio ar gynyddu soffistigeiddrwydd yr ymagwedd at fynd at wraidd yr anghydraddoldebau hyn, a sicrhau ein bod yn datblygu ymagweddau teilwredig.

Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn cydweithio â'r cymunedau hyn, i gasglu dirnadaethau o'r ysgogwyr cymhleth i ymddygiadau ysmegu a'r rhwystrau rhag gallu manteisio ar, a defnyddio dulliau rhoi'r gorau i ysmegu, sy'n hanfodol i gefnogi dyfodol di-fwg i'r grwpiau hyn.

Bydd hyn yn arwain at effaith gadarnhaol ar y grwpiau y soniwyd amdanynt uchod, drwy leihau'r niweidiau sylweddol a achosir gan dybaco.

Bydd y Grŵp Cyflawni Gweithredu Rheoli Tybaco a'r Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco yn goruchwyllo gweithredu "Creu Cymru Ddi-Fwg" a byddant yn monitro effaith y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn, a'n cynnydd ni tuag at Gymru ddi-fwg. Mae hyn yn cynnwys ystod o gamau gweithredu sy'n targedu grwpiau blaenoriaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau'n gysylltiedig â defnyddio tybaco.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodweddion gwarchoddedig:

Nodwedd warchoddedig neu grŵp	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch chi'n lliniaru Effeithiau?
Oedran (meddylwch am grwpiau oedran gwahanol)	Plant a phobl ifanc 0-18-cadarnhaol Oedolion 18+ - cadarnhaol	<p>Mae ysmegu'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc trwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed. Mae 4% o'r rhai 11-16 oed yn nodi eu bod yn ysmygwyr cyfredol, ac mae hyn yn cynyddu gydag oedran, gyda 9% o'r rhai 15-16 oed yn ysmegu ar hyn o bryd yng Nghymru. Drwy weithio i greu Cymru ddi-fwg, amcanwn at wneud bod yn ddi-fwg yn norm, cynyddu cyfran plentyndod di-fwg, lleihau cysylltiad â mwg ail-law a lleihau niweidiau i blant a phobl ifanc o dybaco.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae 14% o oedolion yng Nghymru yn ysmygwyr, ac maent yn achosi effeithiau iechyd sylweddol i ysmygwyr a phobl sy'n dod i gysylltiad â mwg ail-law. Bydd gwneud Cymru'n ddi-fwg (cyffredinrwydd ysmegu o 5% neu lai) yn lleihau'r niweidiau yn sgil tybaco i oedolion yng Nghymru.</p>	

<p>Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd¹ a'r modd y gallai eich cynnig, yn anfwriadol, achosi, neu'r modd y gellid ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n analluogi pobl â mathau gwahanol o namau)</p>	<p>Pobl â chyflyrau iechyd meddwl - cadarnhaol</p>	<p>Mae cyfraddau ysmegu'n uwch o lawer ymhlith pobl â chyflyrau iechyd meddwl. Amcangyfrifir bod o leiaf 33% o'r tybaco a ddefnyddir yn y DU yn cael ei ddefnyddio gan bobl â chyflyrau iechyd meddwl, a bod 60% o bobl â diagnosis o sgitsoffrenia yn ysmegu.² Er gwaethaf cyffredinrwydd uchel parhaus ysmegu ymhlith pobl â chyflyrau iechyd meddwl, dim ond lleiafrif o bobl â chyflyrau iechyd meddwl sy'n derbyn ymyriadau effeithiol i roi'r gorau i ysmegu.³ Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer cymorth targedig a'i deilwra i sicrhau ein bod yn lleihau cyffredinrwydd ysmegu i'r rheiny â chyflyrau</p>	
--	--	--	--

¹ Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl wedi'u hanablu gan eu namau ond yn hytrach gan rwystrau a wynebant mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalo rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

² ASH Cymru. 2017. Smoking and mental health. Ar gael yn: <https://ash.wales/campaign/mental-health/#1525163605269-654d5fb5-6839>

³ Coleg Brenhinol y Meddygon a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion. 2013. Smoking and Mental Health. Ar gael yn: [Smoking and mental health | RCP London](#)

		iechyd meddwl, gan wella lles meddwl yn y grŵp blaenoriaeth hwn.	
Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a Phobl drawsryweddol	Pobl drawsryweddol-cadarnhaol	<p>Mae arolygon yn dangos bod pobl drawsryweddol yn fwy tebygol o ysmegu. Gwelir y berthynas rhwng aelodau'r gymuned LHDTG+ a chyfraddau ysmegu uwch o oedran ifanc hefyd, gyda 40% o bobl ifanc 15-16 oed nad ydyn nhw'n nodi eu hunain yn wryw nac yn fenyw yn ysmegu'n wythnosol o leiaf. Felly, mae pobl drawsryweddol wedi'u hamlygu'n un o'r grwpiau blaenoriaeth yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni.</p> <p>Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys pobl drawsryweddol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu tystiolaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, ac ymgysylltu â phobl o grwpiau blaenoriaeth a</p>	

		sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau blaenoriaeth i ddeall eu rhesymau dros ysmegu a rhwystrau rhag rhoi'r gorau i ysmegu, a gweithio gyda nhw i ddatblygu camau teilwredig gefnogi rheoli tybaco.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cadarnhaol	<p>Yng Nghymru, cofnodir bod 17% o bobl feichiog yn ysmygwyr yn eu hasesiad cychwynnol, a gwyddys bod hynny'n cynyddu risg cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt, fel pwysau geni isel, genedigaeth gynamserol a marw-enedigaeth.</p> <p>Mae'r strategaeth yn datgan y bydd gwaith yn cael ei wneud i gynyddu cyfran beichiogrwyddau di-fwg yng Nghymru. Bydd hyn yn lleihau effaith niweidiol tybaco yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt</p>	
Hil (cynhwyswch leiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a	Pobl o gefndiroedd ethnig â chyffredinrwydd ysmegu uwch - cadarnhaol	Mae cyffredinrwydd ysmegu a defnyddio cynhyrchion tybaco eraill yn amrywio rhwng pobl gefndiroedd ethnig gwahanol. Ym Mhrydain, mae cyfraddau ysmegu	

<p>Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</p>		<p>yn uwch ar gyfer dynion a menywod o gefndiroedd ethnig cymysg, o gymharu â phobl o gefndiroedd ethnig gwyn, ac yn is ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau ethnig eraill. Ceir cysylltiadau cryf hefyd rhwng rhywedd ac ysmegu ar gyfer pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig gwahanol, gyda chyfraddau ysmegu yn uwch o lawer ymysg dynion o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Tsieineaidd o gymharu â menywod o'r grwpiau hynny. Ceir gwahaniaethau hefyd yn y mathau o gynhyrchion tybaco a ddefnyddir gan bobl o grwpiau ethnig gwahanol, fel y defnydd o dybaco di-fwg gan bobl o gefndiroedd ethnig De a De Ddwyrain Asia.</p> <p>Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys pobl o gefndiroedd ethnig y ceir cyffredinrwydd ysmegu uwch yn eu mysg. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu</p>	
---	--	--	--

		<p>tystiolaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, ac ymgysylltu â phobl o grwpiau blaenoriaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau blaenoriaeth er mwyn deall eu rhesymau dros ysmegu a rhwystrau rhag rhoi'r gorau i ysmegu, a gweithio gyda nhw i ddatblygu camau gweithredu wedi'u teilwra i gefnogi rheoli tybaco.</p>	
Crefydd, cred a diffyg cred	Dim	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod defnyddio tybaco yn gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred.</p>	
Rhyw / Rhywedd	Cadarnhaol	<p>Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae canran y gwrywod sy'n ysmegu yng Nghymru yn gyson uwch na menywod. Gallai'r strategaeth a'r cynlluniau cyflawni fod yn arbennig o fuddiol i ddynion os gallwn leihau cyffredinrwydd ysmegu yn y grŵp hwn.</p>	
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Pobl LHDCT+-cadarnhaol	<p>Mae cyfraddau ysmegu yn uwch ymhlith pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol o gymharu â phobl heterorywiol. Er</p>	

		<p>gwaetha'r cyfraddau uwch hyn, mae llawer o bobl LHDCT yn adrodd eu bod yn gallu teimlo wedi'u hallgáu o ofal iechyd gan iaith a pholisïau anghynhwysol.</p> <p>Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys pobl LHDCT+. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu tystiolaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, ac ymgysylltu â phobl o grwpiau blaenoriaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau blaenoriaeth i ddeall eu rhesymau dros ysmegu a rhwystrau rhag rhoi'r gorau i ysmegu, a gweithio gyda nhw i ddatblygu camau teilwredig i gefnogi rheoli tybaco.</p>	
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod defnyddio tybaco yn gysylltiedig â phriodas neu bartneriaeth sifil.	

<p>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae ysmegu'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc trwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed. Mae 4% o'r rhai 11-16 oed yn nodi eu bod yn ysmygwyr cyfredol, ac mae hyn yn cynyddu gydag oedran, gyda 9% o'r rhai 15-16 oed yn ysmegu ar hyn o bryd yng Nghymru. Drwy weithio i greu Cymru ddi-fwg, amcanwn at wneud bod yn ddi-fwg yn norm, cynyddu cyfran plentyndod di-fwg, lleihau cysylltiad â mwg ail-law a lleihau niweidiau i blant a phobl ifanc o dybaco.</p>	
<p>Aelwydydd incwm isel</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae cyfraddau ysmegu ymhlith pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad yn economaidd-gymdeithasol dros ddwywaith mor uchel â chyfraddau ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifad. Felly, mae aelwydydd incwm isel wedi'u hamlygu'n un o'r grwpiau blaenoriaeth yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni.</p>	

		<p>Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys aelwydydd incwm isel. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu tystiolaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, ac ymgysylltu â phobl o grwpiau blaenoriaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau blaenoriaeth i ddeall eu rhesymau dros ysmegu a rhwystrau rhag rhoi'r gorau i ysmegu, a gweithio gyda nhw i ddatblygu camau teilwredig i gefnogi rheoli tybaco.</p>	
--	--	--	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A ydych chi'n meddwl y caiff y polisi hwn effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch chi'n lliniaru Effeithiau negyddol?
---------------	--	---	---

	<p>Ystyrir na fydd y cynigion yn cael unrhyw effaith sylweddol ar yr hawliau a warchodir gan ECHR a HRA 1998.</p> <p>Bydd unrhyw effaith niweidiol ar hawliau ysmygwyr yn fach iawn, yn gymesur â budd y cyhoedd ac wrth fynd ar drywydd nod dilys gweithio i sicrhau Cymru ddi-fwg.</p>		
--	--	--	--